CLODFORI DUW Â PHOPETH SYDD GENNYN NI

Nodyn i'r siaradwr:
Esbonia pam y dylen ni glodfori Duw a sut mae hynny'n effeithio ar ein holl fywyd. Helpa'r rai newydd i ddeall nad yw aelodau o'r gynulleidfa Gristnogol yn bromotio nac yn clodfori eu hunain

MAE JEHOFA YN HAEDDU CLOD (6 mun.)

Mae clodfori Duw yn golygu rhoi iddo "mawl, anrhydedd a diolchgarwch"

Mwy na neb arall, Jehofa sy'n deilwng o glod **[Darllen Datguddiad 4:11]**

O'u gwirfodd mae angylion nerthol yn clodfori Jehofa (Dat 7:11, 12)

Faint yn fwy y dylen ni glodfori Duw! (Sal 8:3-9)

Mae'r mwyafrif o bobl wedi'u dallu gan Satan, duw'r byd hunanol hwn (2Co 4:4)

Yn hytrach na chlodfori Duw, maen nhw'n dyrchafu eu hunain ac yn ceisio clod gan eraill (In 12:43; Rhu 1:20, 21)

Sut medrwn ni roi'r clod i Jehofa fel y mae ef yn ei haeddu? (Sal 96:7, 8)

EFELYCHWCH IESU FEL ESIAMPL O GLODFORI DUW (12 mun.)

Efelychwn ostyngeiddrwydd Iesu (Php 2:5-8)

Cefnodd Iesu ar geisio clod ei hun, hyd yn oed yn wyneb temtasiwn Satan (Mth 4:5-10; *w11*-E 5/15 18 ¶10-11)

Cydnabyddodd Iesu ei Dad fel ffynhonnell ei ddysgeidiaethau a'i weithredoedd grymus (In 7:16; 14:10)

Yn briodol, diolchwn Jehofa am ein doniau a'n llwyddiant (1Co 4:7)

Roedd Iesu'n fodlon gwneud gwaith isel dros eraill (In 13:3-5)

Efelychwn gariad Iesu at gyfiawnder (Heb 1:6)

Mae niferoedd beiddgar a'u bryd ar anwybyddu cyfreithiau moesol Duw (Rhu 1:24, 28, 32; 2Pe 2:10)

Rydyn ni'n anrhydeddu Jehofa drwy gydnabod ei hawl i'n siapio, a thrwy gadw ei orchmynion (Esei 64:8)

Pan fyddai eraill yn canmol ein hymddygiad, Jehofa piau'r clod (1Pe 2:12)

Efelychwch Iesu yn ei ymroddiad llwyr i Jehofa (In 4:34; 8:28, 29)

Defnyddiwch eich bywyd, nid i wneud ewyllys eich hun, ond yn hytrach i wneud ewyllys Duw (Mth 16:24; Rhu 12:1, 2; *w06*-E 4/1 23 ¶9)

Rhanna newyddion da'r Deyrnas ag eraill **[Darllen Ioan 15:8]** (Mth 28:19, 20)

O bosib, gall eich daioni tuag at eraill eu hysgogi i glodfori Duw (Mth 5:16; *w08*-E 5/15 5-6 ¶12-16)

SUT I GLODFORI DUW Â PHOPETH SYDD GENNYN NI (8 mun.)

Dylai ein cariad tuag at Dduw ein hysgogi i ddefnyddio *popeth sydd gennyn ni* i'w glodfori **[Darllen Marc 12:30]**

Mae gan bob un ohonon ni adnoddau gwahanol y gallwn eu defnyddio i glodfori Duw—er enghraifft, dawn, addysg, nerth, profiad, amser, neu bethau materol (Dia 3:9)

Nid faint sydd gennyn ni sy'n clodfori Jehofa, ond y ffordd rydyn ni'n defnyddio'r hyn sydd gennyn ni (Lc 21:1-4)

Mae Jehofa yn ymwybodol o'n hamgylchiadau a'n cyfyngiadau unigryw (Sal 103:14)

Os daw'r cyfle ichi ehangu ar eich gwasanaeth neu ar ysgwyddo breintiau cynulleidfaol, yna defnyddiwch y cyfleoedd hynny er lles eraill ac er clod Jehofa

Peidiwch byth â mynd yn or-falch o'ch galluoedd na cheisio clod eich hunan (Dia 16:18; 25:27)

Cefnwch ar bromotio'ch hunan ac anghofiwch am fod yn geffyl blaen (Mth 23:10-12)

MAE CLODFORI JEHOFA YN ARWAIN AT FENDITHION (4 mun.)

Bydd dy ymdrechion i glodfori Duw yn dwyn ffrwyth

Cewch chi'r boddhad sy'n deillio o glodfori'r Un sy'n "haeddu ei foli" (Sal 145:3)

Yn ei dro bydd Jehofa yn closio atoch chi a'ch clodfori (Sal 73:23, 24; 138:6; *w13*-E 2/15 25-26 ¶2-5)

Byddwch chi'n ennill y cyfle o glodfori Jehofa yn dragywydd (Sal 86:12)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

© 2018 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania